# Adolygiad Blynyddol 2023/24 Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-24

Cyngor Caerdydd



CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

## Cynnwys

Cyflwyniad 3

Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb yn 2023/24:

1. Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd 4
2. Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a thu hwnt 10
3. Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw neu'n gweithio yn y ddinas neu sy'n ymweld â hi 13
4. Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol 17

## Cyflwyniad

Ym mis Medi 2020, cyhoeddodd Cyngor Caerdydd Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024, gan nodi pedwar Amcan Cydraddoldeb y bydd y Cyngor yn mesur cynnydd yn eu herbyn dros y pedair blynedd nesaf. Roedd yr amcanion yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd trwy'r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol blaenorol.

Mae'r adroddiad hwn ar Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-24 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.

Lluniwyd y pedwar Amcan Cydraddoldeb yn dilyn rhaglen o ddigwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd gyda dinasyddion a chynrychiolwyr o grwpiau nodweddion gwarchodedig. Cafodd y cyfranogwyr gyfle i roi eu barn a helpu i lunio'r Amcanion Cydraddoldeb a bennwyd ar gyfer y cyfnod pedair blynedd.

Y pedwar Amcan Cydraddoldeb yw:

1. **Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd**

2. **Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a thu hwnt**

3. **Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw neu'n gweithio yn y ddinas neu sy'n ymweld â hi**

4. **Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran cyflawni'r amcanion hyn yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r mentrau a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, e-bostiwch: TîmCydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

## Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcan Cydraddoldeb 1: Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd

**Tai**

Cartrefi Cyngor Newydd

Mae'r Cyngor yn parhau â'i ymrwymiad i gynyddu faint o dai fforddiadwy, effeithlon o ran ynni a charbon carbon isel sydd yn y ddinas.

Mae ein rhaglen adeiladu tai, Cartrefi Caerdydd, wedi darparu cyfanswm o 1,110 o gartrefi newydd gyda 284 wedi'u cwblhau yn 2023/24. Mae 67 o safleoedd sy'n gallu darparu 4,567 o gartrefi newydd eraill wedi'u nodi.

Mae gwaith i ailddefnyddio cartrefi gwag yn mynd rhagddo gyda'r Cyngor ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged. Mae 92 eiddo gwag wedi cael eu hailfeddiannu yn ogystal â 21 o anheddau ychwanegol yn cael eu creu yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a thrwy hynny wella'r stoc dai sydd ar gael.

Codi Safonau yn y Sector Rhentu Preifat

Cyhoeddodd Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 1,245 o drwyddedau Tŷ Amlfeddiannaeth ar eiddo'r llynedd. Mae'r holl eiddo wedi cael eu harchwilio ar gyfer materion Iechyd a Diogelwch. Mae tystysgrifau diogelwch ar waith, mae pryderon diogelwch tân wedi'u bodloni, a gwiriodd landlordiaid am ffitrwydd i weithredu.

Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn parhau i flaenoriaethu camau cadarn yn erbyn perchnogion a landlordiaid nad ydynt yn cydymffurfio, ac wedi sicrhau sawl erlyniad proffil uchel o landlordiaid am amrywiaeth o droseddau.

Mae trafodaethau wedi'u cynnal ar weithredu rhannu data gydag Awdurdodau Tân ledled Cymru i sicrhau bod pryderon diogelwch yn cael eu rhannu. Mae dangosfyrddau Power BI, sy'n darparu gwybodaeth am y Sector Rhentu Preifat a pherfformiad Rhentu Doeth Cymru, wedi cael eu cyhoeddi ac yn parhau i gael eu rhyddhau.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i recriwtio siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru i gynorthwyo i gyflawni cynllun Rhentu Doeth Cymru.

Tai Pobl Hŷn

Mae cynnydd yn parhau yn natblygiad ein Cynlluniau Byw yn y Gymuned ar gyfer pobl hŷn. Mae'r cynlluniau'n darparu amgylchedd cartref diogel a diogel i bobl hŷn sydd, yn ei dro, yn caniatáu i eiddo mwy fod ar gael i'r rhai sydd ar y rhestr aros am dai.

Darparodd Tŷ Addison, y cyntaf o ddeg cynllun a gynlluniwyd, 44 o fflatiau carbon isel o ansawdd uchel yn gynnar yn 2024, gan alluogi'r trigolion newydd i fyw'n annibynnol. Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar ddau Gynllun Byw yn y Gymuned arall yn Heol Lecwydd a

Stryd Bute, a rhagwelir y bydd y cynlluniau yn cael eu trosglwyddo ym mis Chwefror a mis Gorffennaf 2025 yn y drefn honno.

Sicrhawyd contractwyr ac maent ar y safle yn Llaneirwg wrth i drafodaethau parhau wrth ddatblygu Cynllun Byw yn y Gymuned y Maelfa.

**Ein Gweledigaeth i Roi Diwedd ar Ddigartrefedd**

Yn dilyn cynnydd cychwynnol yn nifer y bobl sy'n cysgu ar strydoedd y ddinas yn ystod gwanwyn a haf 2023, bu gostyngiad amlwg gan oddeutu 50 o unigolion ym mis Tachwedd 2023 i 19 ym mis Mawrth 2024.

Arweiniodd pwysau eithriadol a'r galw diwyro am wasanaethau digartrefedd at y Cyngor yn datgan argyfwng tai ym mis Rhagfyr 2023. Bryd hynny roedd pob un o'r 1,699 uned o lety dros dro yn llawn, ac roedd data'n dangos bod 28 yn fwy o deuluoedd yn mynd i lety dros dro nag yn gadael i lety parhaol bob mis.

Prif achos yr argyfwng tai yw diffyg tai fforddiadwy. Mae pwysau ychwanegol yn cynnwys rhyddhau carcharorion yn gynnar i leddfu gorlenwi carchardai, lleihau lefelau perchentyaeth, cynydd yn y nifer o fyfyrwyr yn y ddinas, newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd yn ystod pandemig Covid, a'r rhai sy'n ceisio lloches rhag rhyfel a gwrthdaro ledled y byd.

Mewn ymateb i'r argyfwng tai, mae Gwasanaethau Atal Digartrefedd wedi cael eu cryfhau i ddiwallu'r angen cynyddol am gymorth gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar.

Mae cartrefi nad oes ganddynt anghenion cymorth yn cael cynnig llety rhent preifat y tu allan i ardal Caerdydd lle mae costau'n fwy fforddiadwy. Mae'r rhent preifat misol cyfartalog yng Nghaerdydd bellach £200 yn uwch na chyfartaledd Cymru. Dim ond lleiafrif bach o eiddo rhent preifat sydd ar gael ar, neu islaw'r, gyfradd Lwfans Tai Lleol, yr uchafswm o fudd-daliadau sy'n gysylltiedig â thai y gellir eu hawlio ar gyfer y rhai sy'n rhentu gan landlord preifat.

Yn y cyfamser yng Nghaerdydd, mae cynigion o dai cymdeithasol unrhyw le yn y ddinas yn cael eu gwneud, er mwyn cynorthwyo gyda symud ymlaen o lety dros dro.

Mae cartrefi modiwlaidd ar gyfer teuluoedd digartref wedi cael eu datblygu ar safle Gasworks yn Grangetown, gan gynyddu'r cyflenwad o lety dros dro yn gyflymach na dulliau traddodiadol. Cytunwyd ar gynigion mewn egwyddor ar gyfer adeiladu 350 o unedau modiwlaidd eraill i'w darparu drwy Raglen Cartrefi Caerdydd. Mae pob cartref modiwlaidd yn cydymffurfio â Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru.

Prynodd y cyngor yn ôl 90 o gyn-dai cymdeithasol yn ystod 2023/24 gyda 31 eiddo arall wedi cofrestru ar gyfer Cynllun Prydlesu Cymru.

**Economi Gynhwysol a Theg**

Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith

Mae'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith yn parhau i gefnogi datblygiad pobl leol i waith, addysg neu hyfforddiant drwy raglenni arloesol sy'n rhoi mewnwelediad i'r gwahanol sectorau cyflogaeth sy'n mynd ati i recriwtio yng Nghaerdydd a'r ardaloedd cyfagos.

Mae'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith yn gweithio gyda Datblygu Economaidd a Chomisiynu a Chaffael i asesu a dylanwadu ar ymrwymiadau gwerth cymdeithasol contractwyr ar gyfer yr holl ddatblygiadau sy'n ymwneud â Glanfa'r Iwerydd er mwyn nodi cyfleoedd i'r cymunedau cyfagos yn y cyfnodau adeiladu a gweithredu. Mae gofynion gwerth cymdeithasol yn cael eu cynnwys o fewn 'Gwahoddiadau i Dendro' sy'n gorfodi contractwyr mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith, i sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar gymunedau lleol.

Mae prosiect Dechrau Disglair, sy'n cynnig lleoliadau profiad gwaith â thâl am chwe mis i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, wedi gweld cynnydd yn nifer y lleoliadau allanol, gyda 31 o leoliadau ychwanegol wedi'u sicrhau yn ystod 2023/24. Mae 37 o fusnesau a 24 o dimau'r Cyngor bellach yn cynnig cyfleoedd lleoli. Mae sectorau sy'n darparu lleoliadau ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cynnwys manwerthu, harddwch, gofal anifeiliaid, garddwriaeth, lletygarwch, gweinyddiaeth, technoleg cerddoriaeth, cyfryngau digidol a chymdeithasol, adeiladu, a gofal plant.

Ym mis Hydref 2023, mewn partneriaeth â Scope, elusen cydraddoldeb anabledd, fe wnaeth y Gwasanaeth i Mewn i Waith ddarparu Ffair Swyddi Caerdydd, ac ym mis Chwefror 2024, cynhaliodd ei ffair swyddi gyntaf i ffoaduriaid mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd. Rhoddodd y ddau ddigwyddiad gyfle i geiswyr gwaith gwrdd â darpar gyflogwyr ac ymgysylltu â darparwyr i helpu i archwilio llwybrau i mewn i waith.

Gan weithio'n agos gyda Thîm Anabledd Dysgu Gwasanaethau Oedolion, mae'r Tîm Mentora Oedolion wedi gweithredu proses atgyfeirio i nodi unigolion a fyddai'n elwa o gymorth cyflogadwyedd a sgiliau ac ers mis Ebrill 2023 maent wedi derbyn 20 atgyfeiriad gan y Gwasanaethau Oedolion.

Mae gostyngiad yng nghyllid Cymunedau am Waith a Mwy Llywodraeth Cymru yn golygu bod y gwasanaeth yn ariannu mwy o wasanaethau a swyddi drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith wedi adolygu a chynllunio'r cynnig gwasanaeth sy'n mynd i mewn i 2024/25 i ateb y galw ar y gwasanaeth ynghyd â'r hinsawdd ariannol heriol.

Bydd academïau sgiliau yn parhau i fod yn rhan allweddol o ddarparu cyflogaeth yng Nghaerdydd, gan dargedu sectorau twf. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r bartneriaeth sgiliau ranbarthol i ddatblygu gwasanaethau ar y cyd i gwrdd â sectorau fel sgiliau technoleg ariannol a gwyrdd, gyda'r nod o greu llwybr at gyfleoedd caffael Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

**Lle Gwych i Blant o Bob Cefndir Gael eu Magu**

Darpariaeth ar gyfer Plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae bron i 4,000 o ddysgwyr yng Nghaerdydd ag anghenion dysgu ychwanegol a nodwyd, ac mae angen lleoliad addysg arbenigol ar oddeutu 1,700 ohonynt. Ym mis Gorffennaf 2023, cymeradwywyd cynlluniau i ddatblygu prosiectau i gynyddu cyfanswm nifer y lleoedd ADY, sy'n cwmpasu ystod o oedrannau ac anghenion cymhleth, i 1,755.

Trwy gydol y flwyddyn, crëwyd 131 o leoedd ADY newydd yn erbyn targed o 141. Mae 20 lle ychwanegol wedi'u cynllunio ar gyfer Ysgol Uwchradd y Dwyrain, er bod y rhain wedi'u gohirio oherwydd bod y manylebau'n dal i gael eu cytuno.

Er bod y cyflenwad o leoedd yn agos at y targed blynyddol, nid yw creu lleoedd newydd yn ateb y galw cynyddol. Wrth i nifer y disgyblion yn y ddarpariaeth ADY arbenigol gynyddu, mae hyn yn cynyddu cost cludiant o'r cartref i'r ysgol, yn enwedig mewn achosion lle mae'r ddarpariaeth y tu allan i Gaerdydd.

Cefnogi Pobl Ifanc i Gyflogaeth/Hyfforddiant

Mae Addewid Caerdydd yn parhau i gydweithio â phartneriaid yn y ddinas gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, BBC Studios, Arlwyo i Ysgolion, Parciau, Cyfrifon, a sawl darparwr adeiladu.

Disgwylir y bydd 300 o leoliadau profiad gwaith yn cael eu sicrhau ar gyfer pobl ifanc drwy bartneriaid Cyngor Caerdydd.

Gyda chefnogaeth partneriaid, Gweithdai Gwerth Cymdeithasol a 'Phrofiad Gofal/Plant sy'n Derbyn Gofal – Datblygu Darpariaeth a Chyfleoedd' mae gweithdai wedi'u cyflwyno i dros 50 o gyflogwyr i sicrhau ein bod yn cyflawni ymrwymiadau gwerth cymdeithasol yn y ffordd fwyaf posibl. Mae gweithdai Gwerth Cymdeithasol misol yn cael eu cynnal ar gyfer contractwyr, rheolwyr contractau a phartneriaid yn y sector preifat.

Mae Llwybr Cyflogaeth Hyblyg â Chymorth Arlwyo Cyngor Caerdydd wedi'i enwebu ar gyfer dwy wobr genedlaethol, gan gyrraedd Rownd Derfynol Gwobrau Sbardun am Ragoriaeth 2024 a Rownd Derfynol ar gyfer y Sector Cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanisien gyda disgyblion o'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol.

Dros 2023/24, mae 60 o bartneriaid wedi derbyn hyfforddiant a ddarperir gan Addewid Caerdydd, Tîm Llinellau Sirol Tarian a Thimau Ecsploetiaeth Heddlu De Cymru. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cefnogi busnesau i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu drwy godi ymwybyddiaeth ac egluro sut i rannu ac adrodd am bryderon camfanteisio yn gywir ac yn gyfrinachol.

Cymerodd deuddeg dysgwr o Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ran mewn rhaglen 10 wythnos a gynlluniwyd i ddatblygu sgiliau coginio a dealltwriaeth o yrfaoedd yn y diwydiant lletygarwch. Dilynodd deuddeg o ddisgyblion Blwyddyn 10 y rhaglen o fis Tachwedd 2023 a mynychu eu digwyddiad graddio yn Stadiwm Dinas Caerdydd ym mis

Chwefror 2024. Yn ystod y digwyddiad graddio, gweithiodd y disgyblion ochr yn ochr â chogyddion proffesiynol i gynhyrchu pryd tri chwrs i dros ddeugain o westeion. Yna dathlwyd eu cyflawniadau yn ystod seremoni raddio lle cafodd disgyblion dystysgrifau a gwobr.

Strategaeth Rhianta Corfforaethol

Mae cyfarfodydd misol y Bwrdd Plant a Phobl Ifanc wedi galluogi adolygiadau rheolaidd o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2021-24 gyda chyflwyniadau wedi'u rhoi i wahanol Gyfarwyddiaethau ac ymgysylltiad cadarnhaol wedi'i dderbyn gan Gyfarwyddwyr.

Mae adolygiad o Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar y gweill gyda thrafodaethau yn parhau ynghylch gweithredu/mabwysiadu'r Siarter yng Nghaerdydd. Cynhaliwyd ymgynghoriadau ym mhob Cyfarwyddiaeth i nodi cyfleoedd/cefnogaeth y gellir eu cynnig i Blant sy'n Derbyn Gofal a fydd yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Gweithredol Rhianta Corfforaethol.

Mae pobl ifanc hefyd yn cael eu cynrychioli yn y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol lle gallant rannu eu profiadau'n uniongyrchol â'r Aelodau.

Iechyd a Lles Emosiynol Pobl Ifanc

Mae'r cynnydd yn nifer y plant ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn parhau i fod yn her barhaus. Mae 1,418 o ddysgwyr sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol a nodwyd. Mae anghenion yn cael eu nodi gan ysgolion gyda chyfeiriadau am gefnogaeth arbenigol yn cael eu trosglwyddo i'r Tîm Cefnogi Arbenigol Iechyd a Lles Emosiynol.

Mae cynlluniau ar y gweill i sicrhau llety ar gyfer Canolfannau Adnoddau Arbenigol ar draws y ddinas ac i ehangu nifer yr Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Mae gwaith i roi cynllun gweithredu' Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar waith yn parhau drwy roi ar waith Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar ei newydd wedd, 'Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd'. Bu gostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr i'r System Cyfiawnder Ieuenctid, o 49 yn 2020/21 i 30 yn 2023/24. Fodd bynnag, mae effaith dargyfeirio plant o'r system cyfiawnder ieuenctid wedi creu pwysau sylweddol ar wasanaethau eraill i blant yng Nghaerdydd.

Mae nifer o raglenni gweithgaredd wedi'u cyflwyno ac wedi cael eu derbyn yn dda gan bobl ifanc a staff, ac arweiniodd cais llwyddiannus at gyllid gan y Gronfa Gwaddol Ieuenctid.

**Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched**

Mae'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 2023-28 wedi cael ei adnewyddu a'i ddosbarthu i'r holl bartneriaid ynghyd â'r Cynllun Gweithredu.

Sefydlwyd Grŵp Llywio i oruchwylio gwaith i fynd i'r afael ag argymhellion adolygiad Bywydau Diogel o'r Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) yn y ddinas.  Mae data rhanbarthol yn cael ei gasglu a'i adrodd arno yn y Grŵp Llywio.

Cynhaliwyd asesiad anghenion hyfforddi'r gweithlu, gan arwain at argaeledd cyrsiau newydd i staff, gyda 84% o staff wedi cwblhau Lefel 1 o'r fframwaith hyfforddi cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Mae gwaith wedi dechrau ar ddrafftio dangosfwrdd data rhanbarthol ac ar ôl ei gwblhau, bydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol.

## Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcan Cydraddoldeb 2:
## Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a thu hwnt

**Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd**

Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn cynrychioli ac yn cynnwys y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae trefniadau llywodraethu a goruchwylio wedi'u hymgorffori ar gyfer y gwaith gyda diweddariad cynnydd blynyddol wedi'i wneud i Dasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd ar gyfer pob un o'r 31 argymhelliad ar draws y pum maes thematig ym mis Mai 2024.

Bydd yr argymhellion sy'n parhau i fod yn agored ac yn barhaus sy'n ymwneud â Chynllun Gweithredu'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol yn cael eu hymgorffori yn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd y Cyngor 2024-28 (i'w mabwysiadu ym mis Medi 2024) ac adroddir arnynt drwy'r Adolygiad Blynyddol o'r Strategaeth.

**Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF**

Mae UNICEF wedi dyfarnu statws Dinas sy'n Dda i Blant Caerdydd, gan wneud y ddinas y gyntaf yn y DU i gyflawni'r uchelgais hon.  Mae Cynllun Cynaliadwyedd wedi'i gytuno, gan nodi rhaglen waith ar gyfer y tair blynedd nesaf.  Mae'r cynllun yn cynnwys dau bwynt adnabod amodol:

- Datblygu dull cynhwysfawr o fynd i'r afael â gwahaniaethu.
- Cryfhau'r 'ddolen gyfranogi' i sicrhau bod plant, pobl ifanc ac ymarferwyr yn deall effaith a dylanwad ymgysylltiad pobl ifanc.

Mae'r Dull Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn parhau; erbyn hyn mae gan Gaerdydd 98 o Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (76.6% o ysgolion Caerdydd) gyda 51 â statws Ysgol Aur neu Arian.

Mae hyfforddiant Hawliau Plant wedi'i gwblhau gan 72% o staff y cyngor yn ystod 2023/24 ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth bellach dros y flwyddyn nesaf, mae hyfforddiant gorfodol wedi'i gysylltu â pherfformiad staff drwy eu hadolygiad personol.

**Gwella Cyfranogiad Dinesig**

<u>Strategaeth Cyfranogiad 2023-27</u>

Mae cyfranogiad y cyhoedd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod lleisiau dinasyddion wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.  Mae'n rhoi cyfle i anghenion a dyheadau cymunedau gael eu clywed, yn cynorthwyo datblygu polisi ac yn caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ymateb.

Cafodd y Strategaeth Cyfranogiad ei gweithredu yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Ionawr 2024.  Mae'r strategaeth yn nodi ein hymrwymiad i gryfhau cyfranogiad ac ymgysylltu ac mae'n nodi nifer o gamau gweithredu i sicrhau y gellir clywed pob llais yn y ddinas.

Gwahoddwyd y cyhoedd i ymgynghori ar y Strategaeth Cyfranogiad ddrafft rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023 drwy arolwg ar-lein neu drwy gwblhau copi caled o'r arolwg. Darparwyd gwybodaeth yn Saesneg, Cymraeg, Arabeg, Bengaleg a Phwyleg i sicrhau bod safbwyntiau a gafwyd yn adlewyrchu amrywiaeth y ddinas. Derbyniwyd dros 1,300 o ymatebion gydag un rhan o bump o'r ymatebwyr (19.4%) yn nodi nad oeddent erioed wedi rhannu eu barn gyda'r Cyngor o'r blaen.

Ymgymerwyd hefyd ag ymgysylltiad wedi'i dargedu â rhanddeiliaid, gan weithio gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yng ngwaith ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor gan gynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl anabl a phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig lleol.

**Hyrwyddwr Pleidleisio Hygyrch**

Ein Prif Swyddog Gweithredol oedd prif weithredwr cyntaf awdurdod lleol y DU i ddod yn Hyrwyddwr Pleidleisio Hygyrch.  Rydym wedi llofnodi'r 'Siarter Fy Mhleidlais Fy Llais', sef ymgyrch genedlaethol sy'n ceisio helpu i roi terfyn ar bleidleisio anhygyrch i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol ac a ddatblygwyd gan United Response, Dimensions, Mencap, Ambitious About Autism a'r bobl sy'n tynnu ar eu cefnogaeth a'u gofal.

Mae'n cydnabod ymrwymiad Cyngor Caerdydd i sicrhau bod pob dinesydd cymwys yn cael ei alluogi i gofrestru i bleidleisio a phleidleisio, gydag unrhyw un sydd angen cymorth gyda'r pethau hyn, yn cael gwybod am yr help sydd ar gael a sut y gallant gael mynediad ato.

**Dinas Cyflog Byw**

Mae Caerdydd wedi ennill cydnabyddiaeth ledled y DU fel Dinas Cyflog Byw ac mae'n parhau i fod ymhlith yr ardaloedd sy'n perfformio orau.  Bellach mae 219 o gyflogwyr achredediedig yn y ddinas.  Yn 2017, roedd 20.7% o weithlu'r ddinas yn ennill llai na'r cyflog byw.  Mae canlyniadau arolwg diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y ffigwr hwn wedi gostwng i 8.2%, gyda dros 13,300 o weithwyr yng Nghaerdydd bellach yn elwa o'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae hyn wedi ychwanegu amcangyfrif o £68m i economi Caerdydd ers 2012.

O ganlyniad i amodau economaidd anodd, mae 15 cyflogwr achrededig yn y ddinas wedi rhoi'r gorau i fasnachu ac fe wnaeth rhai sefydliadau eraill y penderfyniad i beidio ag adnewyddu eu hachrediad pan ddaeth y gyfradd gyfredol o £12 yr awr i rym.  Mae'r sefyllfa hon wedi cael ei adlewyrchu ar draws y Deyrnas Unedig.

**Prifddinas Gydlynol a Chroesawgar**

<u>Cydlyniant Cymunedol</u>

Lansiwyd Cronfa Cydlyniant newydd ym mis Mehefin 2023, a hyrwyddwyd yn eang ymhlith grwpiau cymunedol, gan arwain at dros 100 o ddatganiadau o ddiddordeb. Cadarnhawyd cyllid ar gyfer 11 o brosiectau a oedd yn cynnwys grwpiau chwaraeon a grwpiau cymunedol. Daeth yr holl brosiectau a ariennir i ben yn llwyddiannus erbyn mis Mawrth 2024.  Profodd y Gronfa Cydlyniant mor llwyddiannus y bydd cylch estynedig o gyllid yn cael ei ddarparu yn 2024/25.

Mewn cydweithrediad â phartneriaid, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau Dewch at ein Gilydd Gŵyl y Gaeaf Caerdydd gyda themâu a oedd yn cynnwys lleihau unigrwydd, cynyddu lles cadarnhaol a gwrthweithio naratifau niweidiol.

**Dinas sy'n Dathlu Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy Gerddoriaeth a Diwylliant**

<u>Strategaeth Gerdd Caerdydd</u>

Mae cyllid a sicrhawyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Cerddoriaeth Caerdydd.

Mae Swyddog Cerdd Caerdydd bellach wedi'i sefydlu yn ei swydd ac mae gwaith sylweddol ar y gweill i gynhyrchu Gŵyl Ryngwladol Dinas Gerdd Caerdydd a gynhelir yn hydref 2024.

Mae rhaglen gerddoriaeth a chelfyddydau ar lawr gwlad yn parhau i gefnogi'r sector a lleoliadau lleol.

**Sicrhau a Monitro ein Cynnydd**

<u>Dangosfwrdd Data</u>

Mae'r dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol bellach yn fyw i staff, Aelodau a'r cyhoedd, ac mae'n cael ei ddiweddaru'n chwarterol ar bob cam a dangosyddion perfformiad allweddol o Gynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Dangosfwrdd bellach wedi'i integreiddio'n dda i brosesau rheoli perfformiad y Cyngor.

Mae cynnig ehangach i ddatblygu sgiliau data yn dal i gael ei ddatblygu, ac mae'r opsiynau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys modiwl ar-lein, cynnig hyfforddiant wedi'i hwyluso, neu rwydwaith ymarferwyr data (neu gyfuniad o'r uchod).

Mae'r Dangosfwrdd Rheoli, offeryn i roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar reolwyr i helpu i reoli eu staff yn well, yn fyw ac mae'n cynnwys setiau data ar salwch, cydymffurfiaeth hyfforddi, a chynrychiolaeth gweithlu. Mae gwaith yn parhau i archwilio setiau data ychwanegol sy'n ymwneud â gweithlu, recriwtio a chadw'r Cyngor, gyda thrafodaethau parhaus i gytuno ar setiau data blaenoriaeth.

Mae'r gyfres o ddogfennau cyfarwyddyd y Fframwaith Rheoli Perfformiad wedi'u cwblhau ac mae elfennau allweddol, gan gynnwys canllawiau sgorio COG a chyngor ar ysgrifennu camau newydd a diweddariadau cam chwarterol, wedi'u rhannu ag arweinwyr perfformiad y gyfarwyddiaeth.

## Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcan Cydraddoldeb 3: Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw neu'n gweithio yn y ddinas neu sy'n ymweld â hi

### Dinas Gysylltiedig a Hygyrch trwy Ddylunio

Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd yn helpu i lunio Caerdydd am y 13 mlynedd nesaf hyd at 2036, gan sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn ar yr adeg iawn, gan ddod â buddion i gymunedau a'r economi yn ogystal â nodi pa ardaloedd y mae angen eu diogelu. Cwblhawyd y Strategaeth CDLl a ffefrir yn dilyn ymarfer ymgynghori 10 wythnos. Roedd yr ymarfer yn cynnwys digwyddiad lansio, gweithdai wedi'u hwyluso ledled y ddinas, cyfres o sesiynau galw heibio cyhoeddus yn ogystal â nifer o gyfarfodydd "pwrpasol" gyda grwpiau a chymunedau allweddol. Cynhaliwyd tri grŵp gorchwyl a gorffen Craffu pwrpasol hefyd gan edrych ar ardaloedd CDLl penodol (Adran 106, Trafnidiaeth a Chanolfannau Ardal).

### Gwneud ein mannau cyhoeddus yn fwy hygyrch i bobl hŷn, pobl anabl a'r rhai sydd â phlant ifanc

Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn

Yn dilyn penderfyniad Sefydliad Iechyd y Byd i ychwanegu Caerdydd at y Rhwydwaith Byd-eang ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau Sy'n Dda i Bobl Hŷn ym mis Mawrth 2022, gan ddod yn aelod cyntaf o Gymru o'r rhwydwaith, lansiodd y Cyngor Fforwm Sy'n Dda i Bobl Hŷn ym mis Mai 2023. Mae'r Fforwm yn cael ei gadeirio gan Hyrwyddwr Pobl Hŷn Caerdydd ac mae cynrychiolwyr o grwpiau, cymdeithasau a sefydliadau pobl hŷn yng Nghaerdydd yn bresennol ynddo.

Cynhaliwyd dathliad o Gaerdydd Sy'n Dda i Bobl Hŷn ar Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn yng Nghanolfan Llyfrgell Ganolog Caerdydd i nodi blwyddyn gyntaf cydnabyddiaeth Sefydliad Iechyd y Byd.

Lansiwyd gwefan Caerdydd Sy'n Dda i Bobl Hŷn www.agefriendlycardiff.co.uk/?lang=cy ym mis Medi 2023. Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth sy'n cyfrannu at wneud y ddinas yn lle gwell i bobl heneiddio.

Sefydlwyd gwasanaeth galw heibio personol newydd o fewn Hybiau ar draws y ddinas. Nod y gwasanaeth yw helpu pobl hŷn i fyw'n dda, cadw'n iach ac aros yn annibynnol wrth iddynt heneiddio. Gall pobl alw heibio i ofyn cwestiynau a dysgu am wasanaethau a chymorth lleol a allai eu helpu gan gynnwys gwybodaeth am lesiant, gwasanaethau'r Cyngor, trafnidiaeth a gweithgareddau hamdden.

Cyhoeddwyd rhagor o rifynnau o Newyddlen Caerdydd Sy'n Dda i Bobl Hŷn, a'u dosbarthu i rwydweithiau gan gynnwys meddygfeydd, cartrefi gofal a Hybiau Cymunedol. Mae sianeli digidol hefyd yn cael eu defnyddio'n llawn gan gynnwys gwefannau partner a thrwy rwydweithiau.

Cafodd dau arbenigwr newydd Heneiddio'n Dda hefyd eu recriwtio i roi cyngor a chyfeirio pobl hŷn at wasanaethau.

Dinas sy'n Deall Dementia

Cynhaliwyd Gŵyl Caerdydd sy'n Deall Dementia ym mis Mai 2023 fel rhan o weithgareddau Wythnos Gweithredu Dementia'r ddinas. Bydd y digwyddiad yn gyfle i bobl sydd â dementia a'u gofalwyr gael gwybod mwy am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt, a bydd hefyd yn gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyl. (Dolen i'r datganiad i'r wasg) Daeth ystod eang o sefydliadau a gwasanaethau sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd i'r digwyddiad i rannu gwybodaeth a chyngor.

Cynhyrchodd tîm rhaglen cymunedau tosturiol sy’n Deall Dementia broses addo Caerdydd a’r Fro sydd wedi gweld 261 o fusnesau yng Nghaerdydd yn addo gweithredu’n gadarnhaol ar gyfer Dementia.

Mae Rhaglen Gwirfoddolwyr sy'n Deall Dementia'r Cyngor wedi recriwtio naw o wirfoddolwyr llysgennad yng Nghaerdydd, sy'n cefnogi cyflwyno'r fenter sefydliad sy'n deall dementia, gan ddarparu sesiynau cyfeillion dementia i sefydliadau a busnesau sydd wedi addo ac yn gweithio tuag at ddod yn Gyfeillgar i Ddementia.

Mae llawlyfr atal dementia hefyd wedi'i gynhyrchu mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Caiff gwefan Caerdydd sy’n Deall Dementia ei diweddaru’n rheolaidd ac mae’n darparu dolenni i ddigwyddiadau defnyddiol sydd â’r nod o gefnogi’r rhai sy’n byw â dementia a’u gofalwyr.

**Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd**

Gwnaeth y Cyngor barhau â'n Rhaglen Hybiau Cymunedol gyda'r nod o alluogi trigolion Caerdydd i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn eu cymunedau lleol eu hunain.

Mae cynlluniau ar gyfer Hyb Iechyd a Lles newydd yn Nhrelái a Chaerau yn mynd rhagddynt yn dda, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer datblygu Hyb Ieuenctid yng nghanol y ddinas.

Mae Hybiau presennol ledled y ddinas yn parhau i ddarparu ystod o wasanaethau allweddol i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn lleoliadau hygyrch yn eu cymunedau eu hunain.

Mynd i'r Afael ag Ynysigrwydd Cymdeithasol

Parhaodd y Cyngor â'r fenter Ardaloedd Croeso Cynnes, gan gefnogi trigolion trwy'r argyfwng costau byw ac wrth wneud hynny, helpu i atal unigedd. Mae'r fenter yn cynnig lleoedd wedi'u gwresogi yn ein hadeiladau cymunedol, diodydd poeth am ddim, a gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael.

Mae swyddogion yn parhau i ddarparu ein Gwasanaeth Cymorth Lles. Mae'r gwasanaeth yn hybu lles dinasyddion trwy ddarparu mentora un-i-un tymor byr i'w helpu i ddod yn fwy egnïol ac ymgysylltu â'u cymuned. Gall ynysu cymdeithasol ac unigrwydd fod yn broblem wirioneddol i rai, a nod y gwasanaeth yw cynnig cyfleoedd i ymdrin â hyn a helpu cynifer o bobl â phosibl i ddod yn ddinasyddion gweithredol yn eu cymuned.

Mae Hybiau Cymunedol a llyfrgelloedd yn parhau i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau i helpu i leihau unigedd a chefnogi lles, mae'r rhain yn cynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, boreau coffi/prynhawniau, sesiynau crefft, grwpiau Ffrindiau a Chymdogion, dosbarthiadau coginio, grwpiau gêm a dosbarthiadau digidol.

**Gwella Ansawdd Aer**

Mae aer o ansawdd gwael bellach yn cael ei ystyried fel y perygl amgylcheddol mwyaf i iechyd y cyhoedd yn y DU ac mae tystiolaeth wyddonol gadarn bod llygredd aer yn lleihau disgwyliad oes. Mae tystiolaeth yn dangos bod preswylwyr yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Caerdydd yn destun lefelau uwch o lygredd aer, a bod hyn yn effeithio'n anghymesur ar drigolion o gymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Gwnaeth y Cyngor barhau i fesur ansawdd aer ar draws ystod o leoliadau yng Nghaerdydd yn ystod 2023/24 a oedd i gyd yn cydymffurfio â'r amcanion perthnasol ar gyfer $NO_2$.

Drafftiodd y Cyngor gynigion (mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru) ar gyfer Strategaeth a Chynllun Gweithredu Aer Glân diwygiedig.

Er mwyn gwella allyriadau o dacsis, datblygodd y Cyngor gynllun peilot i leihau allyriadau Cerbydau Hacni, a gwnaethom sicrhau grant gan yr Adran Drafnidiaeth i gefnogi ymchwiliad pellach i opsiynau cymorth ariannol.

**Gwella Gwaith Datblygu Polisi Lleol ar gyfer Dinas Decach**

<u>Cymorth Datblygu Polisi</u>

Mae'r Porth Polisi mewnol yn parhau i gael ei ddefnyddio gan swyddogion i alluogi datblygu polisïau integredig, cynhwysol a gwybodus. Mae'n nodi arfer da, arweiniad a chyngor ar gyfer datblygu polisi, yn ogystal â rhoi gwybodaeth am sut mae prosesau gwneud penderfyniadau yn gweithio yn y Cyngor. Mae'r Porth yn cynnwys gwybodaeth am ystod eang o asesiadau effaith gan gynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiadau Effaith ar y Gymraeg ac mae'n darparu manylion cyswllt y swyddog/tîm arweiniol ar gyfer pob asesiad.

Mae'r Porth yn cynnwys Offeryn Sgrinio Asesu Effaith sy'n helpu swyddogion i ystyried gofynion statudol, yn ogystal ag ystyriaethau arfer gorau, wrth ddatblygu polisïau, strategaethau a phrosiectau.

<u>Rhwydwaith Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus</u>

Gan weithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, sefydlodd y Cyngor Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus ar gyfer Caerdydd. Mae'r rhwydwaith yn dod â

phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus at ei gilydd i gydweithio i hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy ganolbwyntio ar feysydd o her gyffredin a rhannu dyhead. Bydd y Rhwydwaith yn cyfarfod i rannu gwybodaeth, arweiniad, arfer gorau, adolygu materion cydraddoldeb sy'n gyffredin i bawb, a nodi cyfleoedd i ddangos arweinyddiaeth ar faterion cydraddoldeb fel cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus mawr ledled y ddinas. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb o fewn y gweithleoedd amrywiol, yn helpu mewn gwaith parhaus i arallgyfeirio ein gweithluoedd a chefnogi datblygiad grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn ein sefydliadau.

<u>Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb</u>

Mae Cyngor Caerdydd yn defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) i werthuso ein cynigion, gweld a oes ganddynt y potensial i effeithio ar bobl yn wahanol a chefnogi ein proses o wneud penderfyniadau.

Eu pwrpas yw nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau presennol neu bosibl i wneud yr hyn a wnawn mor deg â phosibl ac i nodi effeithiau cadarnhaol fel ffordd o hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau.

Mae prosesau mewnol o amgylch AEGau wedi'u cryfhau. Mae'r Tîm Cydraddoldeb Corfforaethol yn cyfarfod cyn pob cyfarfod cyhoeddus o'r Cabinet gyda swyddogion o Gaerdydd Ddwyieithog a'r Tîm sy'n Dda i Blant i nodi pa eitemau sy'n mynd gerbron Cabinet y Cyngor sydd angen Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiadau Effaith ar y Gymraeg. Rhennir adroddiadau gydag Uwch Reolwyr i sicrhau bod cyfarwyddiaethau yn cael eu diweddaru â'u prosesau AEG. Lle mae angen AEGau, cynigir cymorth, cyngor ac arweiniad i swyddogion. Mae'n rhaid darparu AEGau wedi'u cwblhau i Bwyllgorau Craffu, y Cabinet a'r Cyngor i sicrhau bod penderfyniadau cadarn yn cael eu hysbysu'n llawn.

Mae'r Tîm Cydraddoldeb Corfforaethol yn parhau i ddarparu hyfforddiant AEA, a chyngor un-i-un i holl wasanaethau'r Cyngor i'w cefnogi i gwblhau Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb o ansawdd uchel, lle mae eu hangen.

<u>Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW)</u>

Ymrwymodd y Cyngor i ddod yn Ddinas CEDAW ar ddiwedd 2022/23. Mae hyn yn golygu y byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod menywod yn mwynhau hawliau dynol yn llawn ar sail gyfartal â dynion, gan gynnwys:

- Dileu rolau stereoteipiedig ar gyfer menywod a dynion.
- Sicrhau cyfranogiad cyfartal menywod mewn bywyd cyhoeddus.
- Sicrhau bod egwyddorion CEDAW yn rhan annatod o'r holl benderfyniadau.
- Trais yn erbyn menywod a merched.
- Cael gwared ar wahaniaethu mewn cyflogaeth.

Mae camau gweithredu wedi'u datblygu i weithio tuag at gyflawni'r nodau hyn. Bydd y camau gweithredu yn cael eu hymgorffori yn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd y Cyngor 2024–28 (i'w mabwysiadu ym mis Medi 2024) a'u monitro drwy'r trefniadau llywodraethu a goruchwylio.

## Cynnydd a wnaed yn erbyn Amcan Cydraddoldeb 4: Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol

### Strategaeth Gweithlu

Mae Strategaeth Gweithlu'r Cyngor ar gyfer 2023-27 yn nodi'r blaenoriaethau allweddol i greu diwylliant sy'n cefnogi perfformiad uchel ac sy'n galluogi gweithlu hyblyg, medrus, ymgysylltiol ac amrywiol. Mae'n cefnogi ymrwymiadau a wnaed o fewn 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' gan gynnwys yr angen am weithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Er mwyn cefnogi'r ymrwymiad i adeiladu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol, lansiwyd Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth beilot gydag aelodau o'n Rhwydweithiau Gweithwyr. Nod y rhaglen yw datblygu arweinwyr ar gyfer y dyfodol a helpu i gynyddu amrywiaeth rheolwyr ac uwch reolwyr yn y dyfodol.

Fel rhan o'r rhaglen arweinyddiaeth, datblygwyd rhaglen fentora deuffordd. Mae'r rhaglen yn caniatáu i weithwyr rannu eu profiadau, eu heriau a'u rhwystrau posibl i gynnydd, hefyd eu safbwyntiau, eu gwybodaeth a'u sgiliau unigol gydag uwch reolwyr. Trwy'r sgyrsiau hyn, bydd uwch reolwyr yn dod yn fwy gwybodus ynghylch y rhwystrau sy'n bodoli i sicrhau amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y sefydliad ac wrth wneud hynny, byddant yn gallu nodi newidiadau posibl i lunio'r sefydliad ar bob lefel gan gynnwys uwch reolwyr.

### Cefnogi a chydweithio gyda'n rhwydweithiau cydraddoldeb gweithwyr

Parhaodd y Cyngor i ddarparu cefnogaeth i'n pum rhwydwaith dan arweiniad gweithwyr sy'n gwneud cyfraniad hanfodol at hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle. Dyma'r pum rhwydwaith:

- Y Rhwydwaith Gofalwyr
- Y Rhwydwaith Anabledd
- Y Rhwydwaith Cydraddoldeb Ethnig Amrywiol
- Y Rhwydwaith LHDT+
- Y Rhwydwaith Menywod

Mae ein Rhwydweithiau yn cynnig adnodd hanfodol a gwerthfawr sy'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sef:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau, a;
- Meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau.

O ganlyniad i weithio'n agos gyda'n Rhwydweithiau Gweithwyr, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ein gwaith o ddatblygu polisi a chreu canllawiau arbenigol. Mae hyn yn cynnwys datblygu:

- Canllaw Niwroamrywiaeth
- Canllaw ar y Darfyddiad
- Canllaw Ymwybyddiaeth o Fyddardod

- Canllawiau Trawsnewid
- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Canllawiau Gweithio Gartref (Rheolwr a Gweithiwr)
- Polisi Absenoldeb Arbennig
- Adolygiad a diweddariad o'r Polisi Recriwtio a Dethol

Parhaodd y Cyngor i weithio gyda'n rhwydweithiau i gefnogi ein gweithwyr ac i helpu i nodi'r cymorth sydd ei angen er mwyn i grwpiau, sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, symud ymlaen o fewn y Cyngor. Cynhaliodd y rhwydweithiau ystod o weminarau, sesiynau cymorth, gweithdai a digwyddiadau sy'n agored i bob gweithiwr, gan alluogi rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth.

**Cefnogi Iechyd a Lles Cyflogeion**

Mae gan weithwyr y Cyngor fynediad at Vivup, darparwr Rhaglen Cymorth Cyflogeion (RhCC) newydd y Cyngor.

Mae'r Rhaglen Cymorth Cyflogeion (RhCC) yn cynnig y canlynol:

- Cymorth, cyngor a gwybodaeth i helpu gyda'ch iechyd meddwl a'ch lles
- Cymorth cwnsela cyfrinachol annibynnol gan bersonél gofalgar â chymwysterau priodol
- Cymorth gyda llawer o wahanol faterion gan gynnwys Cydberthynas, Cyllid, Anawsterau Teuluol, Gorbryder, Profedigaeth, Straen, Iselder, Materion yn y Gweithle a Thrawma
- Cymorth cyfrinachol ar gyfer unrhyw un o heriau bywyd, waeth pa mor fawr neu fach.

Mae'r adnoddau'n cynnwys:

- Llinell gymorth dros y ffôn am ddim sydd ar gael 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn.
- Cyngor ar ddyled a materion ariannol
- Llyfrau gwaith hunangymorth y gellir eu lawrlwytho
- Podlediadau, blogiau a mwy

Hefyd, darparodd y Cyngor hyfforddiant Connect 5 (rhaglen ymwybyddiaeth iechyd meddwl) i staff, a grëwyd i ddeall yn well a theimlo'n hyderus i gael sgyrsiau bob dydd am iechyd meddwl a lles yn y gweithle.

**Ein Hachrediad Arfer Gorau**

<u>Y Siarter Hil yn y Gwaith</u>

Ymrwymiad y cyhoedd i wella cydraddoldeb hiliol, cynhwysiant ac amrywiaeth yn y gweithle.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi gwneud yr ymrwymiadau canlynol:

- Penodi noddwr gweithredol ar gyfer hil.
- Casglu data ethnigrwydd a rhoi cyhoeddusrwydd i gynnydd.
- Ymrwymo ar lefel bwrdd i ddim goddefgarwch o aflonyddu a bwlio.

- Sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel cyfrifoldeb pob arweinydd a rheolwr.
- Gweithredu sy'n cefnogi pobl Ddu, Asiaidd, hil gymysg a dilyniant gyrfa gweithwyr ethnig amrywiol eraill.
- Cefnogi cynghreiriaid cynhwysiant hiliol yn y gweithle.
- Cynnwys perchnogion Du, Asiaidd, hil gymysg a pherchnogion mentrau ethnig eraill yn y gadwyn gyflenwi.

Rydym wedi cyflawni'r ymrwymiadau hyn drwy'r canlynol:

- Penodi Noddwr Gweithredol ar gyfer hil.
- Mae ein dau Uwch Bencampwr Rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd gydag aelodau o'r Rhwydwaith Gweithwyr Ethnig Amrywiol i drafod sut y gellir gwella'r sefydliad.
- Casglu data ethnigrwydd at ddibenion adrodd a rhoi cyhoeddusrwydd i'r data hwn yn flynyddol ynghyd â chynnydd ar unrhyw fentrau.
- Cabinet ac Uwch Reolwyr yn ymrwymo i ddim goddefgarwch o aflonyddu a bwlio, sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Datrys y Cyngor.
- Ei gwneud yn glir mai cyfrifoldeb pob arweinydd a rheolwr yw cefnogi cydraddoldeb yn y gweithle.
- Rhoi cymorth parhaus, hyfforddiant, a gwybodaeth i bob arweinydd a rheolwr.
- Mae gweithio gyda'r Rhwydwaith Gweithwyr Ethnig Amrywiol yn digwydd, i wrando ar a deall y rhwystrau sy'n wynebu dilyniant gyrfa a gweithio ar raglen arweinyddiaeth.
- Gweithio gyda phartneriaid fel Busnes Cymru, Busnes mewn Ffocws a Siambr Fasnach De Cymru i wella sgiliau busnesau bach a chanolig lleol i fanteisio ar gyfleoedd busnes y sector cyhoeddus.

<u>Siarter Gwrth-Hiliaeth UNSAIN</u>

Daeth Cyngor Caerdydd yn llofnodwyr Siarter Gwrth-Hiliaeth Unsain. Mae'r addewid yn sicrhau ymrwymiad parhaus Cyngor Caerdydd fel cyflogwr i gydnabod yr anghydraddoldeb y mae Gweithwyr Du yn ei wynebu ac i weithredu polisi cydraddoldeb hiliol clir a gweladwy, rhaglen o fentrau a chamau gweithredu gwrth-hiliaeth a mesurau cryf i ddileu unrhyw achosion o wahaniaethu ar sail hil yn ei holl ffurfiau. Trwy lofnodi'r Siarter, rydym wedi ymrwymo i nifer o gamau gweithredu gan gynnwys:

- Mae ein harweinwyr yn cydnabod yr angen a'r budd o hyrwyddo gweithlu hiliol amrywiol.
- Gosod ac adolygu strategaethau yn rheolaidd i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant hiliol fel bod ein sefydliad yn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.
- Darparu hyfforddiant cydraddoldeb cadarn i reolwyr sy'n ymwneud â recriwtio, hyrwyddo ac ymchwilio i honiadau.
- Herio hiliaeth yn fewnol ac yn allanol lle bynnag y mae'n codi mewn perthynas â'n sefydliad.
- Sicrhau bod ein prosesau recriwtio yn nodi a mynd i'r afael â gwahaniaethau ar sail hil o ran cyfle cyfartal.

Addewid Cyflogwyr Sy'n Dda i Bobl Hŷn

Derbyniwyd y Cyngor ar gynllun Addewid Cyflogwyr y Ganolfan Heneiddio'n Well, rhaglen genedlaethol ar gyfer cyflogwyr sydd wedi ymrwymo i wella gwaith i bobl yn eu 50au a'u 60au. Drwy lofnodi'r addewid, dangosodd y Cyngor ei ymrwymiad i weithwyr hŷn a gwneud ein gweithleoedd mor dda â phosib i bobl hŷn. "Mae'r addewid yn anfon neges gref i'n gweithlu ein hunain a'n darpar weithwyr ein bod yn gwerthfawrogi cyfraniad ein staff hŷn a'r profiad a'r wybodaeth y maent yn ei chyflwyno i'w swyddi. Mae'n cefnogi ein gwaith presennol ar fod yn Ddinas Sy'n Dda i Bobl Hŷn.

Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

Derbyniodd Gwasanaethau Ieuenctid Caerdydd y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (Arian) gan Gyngor y Gweithlu Addysg. Mae'n wobr genedlaethol sy'n cefnogi ac yn cydnabod safonau gwell o ran darpariaeth a pherfformiad sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid. Mae'r wobr yn gydnabyddiaeth am eu hymrwymiad i arferion cynhwysol, gweithgareddau amrywiol, a chynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.

Mae'r Marc Ansawdd yn cynnwys dwy elfen wahanol:

- set o Safonau Ansawdd y gall sefydliadau gwaith ieuenctid eu defnyddio fel offeryn ar gyfer hunanasesu a gwella.
- Marc Ansawdd wedi'i asesu'n allanol sy'n wobr genedlaethol sy'n dangos rhagoriaeth sefydliad.

Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd (Lefel 2)

Gwnaethom gyflawni ein hymrwymiadau tuag at fod yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod pob ymgeisydd a nododd ei fod yn anabl ac a oedd yn bodloni meini prawf hanfodol gofynnol rôl yn cael ei wahodd ar gyfer cyfweliad.
- Rhoi cyfle bob chwe mis drwy ein proses adolygu bersonol i bob cyflogai drafod gyda'i reolwr yr hyn y gallant ei wneud gyda'i gilydd i ddatblygu ei hun a defnyddio ei alluoedd.
- Ymrwymo i gynnig addasiadau rhesymol i gyflogeion anabl.
- Sicrhau canllawiau niwroamrywiaeth ar gyfer cyflogeion a rheolwyr.
- Rhoi sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd gan roi cyfle i gyflogeion ddatblygu lefel briodol o ymwybyddiaeth o anabledd.
- Gweithio gyda'n Rhwydwaith Cydraddoldeb Cyflogeion Anabledd i godi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl staff o faterion anabledd.

Gwobr Aur Stonewall

Enillodd y Cyngor Wobr Aur nodedig Stonewall mewn cydnabyddiaeth o'i waith i ymgorffori cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a dangos cynhwysiant i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn y gweithle ac wrth ymgysylltu a darparu gwasanaethau'n allanol.

Mae'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

- Cyflwyno hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod fel rhan o'r ystod eang o hyfforddiant cydraddoldeb
- ac amrywiaeth i gyflogeion;
- Defnyddio iaith gynhwysol a niwtral o ran y rhywiau ym mholisïau'r Cyngor; a
- Bod â Rhwydwaith Cydraddoldeb Cyflogeion LHDT+ cryf sy'n cael ei gefnogi gan uwch hyrwyddwyr rheoli newydd.

Mae'r wobr hefyd yn cydnabod:

- Dull caffael y Cyngor sy'n sicrhau bod gan gyflenwyr ymagwedd gynhwysol at bobl LHDT+;
- Cynnydd a wnaed o ran cydraddoldeb LHDT+ wrth ddarparu gwasanaethau fel y Gwasanaeth Maethu; a
- Cydweithredu ag Awdurdodau Lleol eraill Cymru fel rhan o Gynghorau Balch.

<u>Un o 100 Cyflogwr Gorau Stonewall</u>
Gwnaeth y weledigaeth Cryfach, Tecach, Gwyrddach ar gyfer Caerdydd ymrwymiad clir i ni adeiladu ar ein Statws Aur gan Stonewall fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau cynwysoldeb LHDTC+, gyda'r nod o fod yn un o 100 cyflogwr gorau Stonewall a'r awdurdod lleol â'r sgôr uchaf yng Nghymru ym Mynegai Stonewall. Llwyddom i gyflawni'r nod hwn a ni yw'r awdurdod lleol safle uchaf yng Nghymru.

<u>Cyflogwr Gofalwr Hyderus (Cyflawnwyd hyn)</u>

Cyflawnodd y Cyngor lefel 2 y cynllun meincnodi Carer Confident. Cyflwynir y statws i gyflogwyr ledled y DU sy'n dangos eu bod wedi adeiladu gweithle cynhwysol a chefnogol ar gyfer staff sydd, neu a fydd yn dod yn ofalwyr, lle mae gofalwyr yn cael eu cydnabod a'u parchu ac sy'n gwneud y gorau o'r doniau y gall gofalwyr eu cyflwyno i'r gweithle.

Mae cyflogwyr Hyderus o ran Gofalwyr yn cydnabod pwysigrwydd cadw aelodau gwerthfawr o staff, lleihau absenoldeb a chostau recriwtio diangen a gwella gwydnwch, ymgysylltiad a chynhyrchiant staff.

**Hyfforddiant a Dilyniant Gyrfa**

Comisiynwyd amrywiaeth o becynnau hyfforddiant cydraddoldeb gan Academi Cyngor Caerdydd ac maent ar gael i bob cyflogai. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Iaith Arwyddion Prydain (Lefelau 1 a 2)
- Ymwybyddiaeth o Fyddardod
- Anabledd a Chydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb

- Hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth o Namau ar y Golwg
- Gweithdai Cyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd Stonewall Cymru
- Rhagfarn Ddiarwybod (sy'n rhagofyniad gorfodol o'n hyfforddiant Recriwtio a Dethol).
- Blodyn yr Haul (Ymwybyddiaeth Anableddau Cudd),
- Microymosodiad,
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Menopos,
- Hyfforddiant Iechyd Meddwl Cysylltu 5.

Mae'r holl hyfforddiant yn cael ei gyflwyno'n rheolaidd a'i werthuso i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn ddefnyddiol i gyflogeion.

**Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol**

Mae maint gwariant y Cyngor yn cynnig cyfleoedd i sicrhau elw cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, gyda ffocws penodol ar waith teg, sicrhau buddion cymunedol a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fusnesau a chymunedau lleol trwy gontractau'r Cyngor. Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd y Cyngor Strategaeth Caffael

Cymdeithasol-Gyfrifol 2022-27 newydd, gan nodi blaenoriaethau caffael allweddol a'r newidiadau a wneir i wella'r ffordd y caiff gwariant allanol ei reoli. Rydym yn parhau i weithio tuag at gyflawni ein blaenoriaethau caffael sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth.

Fe wnaethom lansio gwasanaeth caffael newydd yn canolbwyntio ar brynu busnes sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, mwy o gydweithio a mwy o effaith ar y gymuned. Mae'r gwasanaeth yn rhan o Ardal (partneriaeth gaffael gydweithredol gyda Chyngor Torfaen, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Bro Morgannwg). Bydd yn harneisio'r sgiliau, y wybodaeth a'r arbenigedd ar draws pob Cyngor Ardal, a phartneriaid eraill, i ddatblygu atebion rhagorol o'r hyn y gellir ei gyflawni trwy gaffael cydweithredol, ystwyth.

Un o brif amcanion y strategaeth yw gwneud gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau bach lleol a'r trydydd sector, rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid fel Busnes Cymru, Busnes mewn Ffocws a Siambr Fasnach De Cymru i wella sgiliau busnesau bach a chanolig lleol i gael mynediad at gyfleoedd busnes y sector cyhoeddus. Trwy gydol 2023/24 aeth tua 50% o wariant y Cyngor i sefydliadau yng Nghaerdydd, 65% ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd a 71.5% i sefydliadau yng Nghymru.

**Dathlu'n Amlwg Amrywiaeth ein Dinas**

Mae Cyngor Caerdydd yn falch iawn o enw da Caerdydd o fod yn ddinas amrywiol lle mae pobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd yn cael eu croesawu a'u hannog i fod yn nhw eu hunain. Credwn ei bod yn iawn dathlu amrywiaeth fel ffordd o greu cydlyniant cymunedol, creu ymwybyddiaeth ddiwylliannol, annog undod, dileu, gwahaniaethu a goresgyn stereoteipiau.

Er mwyn cyflawni hyn, gwnaethom hyrwyddo nifer o ymgyrchoedd a digwyddiadau i gyflogeion trwy dudalennau mewnrwyd y Cyngor ac e-byst gwybodaeth i staff. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Diwrnod Gweithredu ar Oedraniaeth
- Diwrnod Gwrth-Hiliaeth
- Diwrnod Atal Caethwasiaeth
- Diwrnod Balchder Awtistiaeth
- Mis Hanes Pobl Ddu
- Diwrnod Hawliau Gofalwyr
- Wythnos Gofalwyr
- Y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd
- Balchder Anabledd
- Wythnos Gweithredu ar Ddementia
- Eid
- Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb
- Diwrnod Cofio'r Holocost
- Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia Deuffobia a Thrawsffobia (DRhEHTD)
- Diwrnod Rhyngwladol Dileu Gwahaniaethu ar Sail Hil
- Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl
- Diwrnod Rhyngwladol y Dynion
- Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anneuaidd
- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
- Mis Ymwybyddiaeth Islamoffobia
- Mis Hanes LHDT+
- Wythnos Ymwybyddiaeth o Enseffalomyelitis Myalgig
- Wythnos Ymwybyddiaeth Sglerosis Ymledol
- Wythnos Dathlu Niwroamrywiaeth
- Mis PRIDE
- Ramadan
- Wythnos Ymwybyddiaeth Ffoaduriaid
- Mis Ymwybyddiaeth SANDS
- Diwrnod Shwmae Sumae
- Dydd Gŵyl Dewi
- Tafwyl
- Cynllun Blodyn yr Haul Anableddau Cudd
- Diwrnod Gweledededd Traws
- Wythnos Gwirfoddolwyr
- Diwrnod Hawliau'r Gymraeg
- Diwrnod y Rhuban Gwyn (Diwrnod Rhyngwladol i roi terfyn ar Drais yn erbyn Menywod)
- Diwrnod Menopos y Byd
- Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl y Byd